

Gwylid yr Eglwys

“ond ni faddeuir i’r sawl sy’n cablu yn erbyn yr Ysbryd Glân.” (adn. 10)

Beth am ddarllen Luc 12:1–12 ac yna myfyrio

Gellir cymharu Diwygiad fel dychweliad i ddydd y Pentecost, oherwydd yn ystod y cyfnod hwn mae Duw yn agor y nefoedd, gan wneud gwaith rhyfeddol ymhlith ei bobl. Dyna a welwch wrth ddarllen hanes diwygiadau mewn hanes – Duw yn dod i’r Eglwys, fel yn nydd y Pentecost.

Gwrthwynebiad arall i Ddiwygiad yw’r ddadl nad yw yn ddim ond math o wylltineb seicolegol. Mae’n gwneud dim ond ennyn rhyw deimladau arwynebol, ac nid yw’n briodol i bobl addysgedig. Ni allaf ddychmygu dim a allai fod yn fwy tebygol o dristau’r Ysbryd, ein bod yn gwneud gwaith yr Ysbryd yn ddim mwy na hysteria seicolegol. Y fi fyddai’r person olaf i geisio dweud fod y cyfan a ddigwydd mewn diwygiad yn waith yr Ysbryd Glân; mae cymeriad ambell un yn golygu eu bod yn ymddwyn mewn ffordd sydd am dynnu sylw atynt hwy, a throeon mae’n ddiarnheul fod yna bethau wedi digwydd drwy ysbrydion eraill. Ond nid yw hynny yn gyfystyr â gwadu fod afon bur yr Ysbryd ar waith mewn diwygiad, ac ni ddylid beio Duw am y rhai sydd yn ymddwyn yn unol â’u natur hwy.

Mae ein testun heddiw yn mynnu ein bod yn ofalus iawn wrth feirniadu gwaith yr Ysbryd Glân, gan fod hyd yn oed geiriau yn erbyn Iesu yn cael eu maddau, ond nid felly geiriau yn erbyn yr Ysbryd. Gwylid yr Eglwys rhag priodoli ei gwaith i unrhyw ffynhonnell arall.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Barn. 13:24–25; 16:15–21; 1 Sam. 15:17–26; 16:14

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd profiad Samson?
2. Pam y gadawodd yr Ysbryd Saul?

Gweddi

Dad cariadlon, paid â gadael i fy ofnau, fy rhagfarnau, fy meirniadaeth, dristau dy Ysbryd Glân. Yn enw Iesu. Amen.